Cenn@d

MAWRTH 6 2024 YN CYNNWYS *Y GOLEUAD* A *SEREN CYMRU* RHIF 158

Rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin – dwy flynedd yn ddiweddarach

Ar Chwefror 24ain eleni, nodwyd diwedd ail flwyddyn y rhyfel rhwng Rwsia ac Wcráin. Mae'n siŵr bod eglwysi ar draws y byd wedi eiriol o blaid heddwch a diweddu'r gyflafan yn eu gweddïau. Pa fodd mae dirnad natur gweddïau eglwysi Wcráin a Rwsia? Pwy ohonom a all roi ein hunain yn y man lle y maent hwy? Byddant yn gweddïo dros ddiwedd y rhyfel, heb os, ond ar ba fath o delerau? Byddai eiriolaeth yr Wcraniaid am gael eu harbed yn naturiol ac eiriol dros eu hanwyliaid a'u cydnabod, mae'n siŵr. Byddant hefyd yn gweddïo dros weld eu gwlad yn cael ei hailadeiladu, a chwilio am greu trefn o'r anhrefn, am ailstrwythuro economi a phob gwedd wleidyddol oddi mewn ac oddi allan i'w gwladwriaeth. Dychmygwn eglwysi Rwsia yn eiriol dros eu milwyr, ac am fuddugoliaeth, ond prin bod trigolion holl daleithiau Rwsia yn ymwybodol o amcanion Mr Putin.

Bydd yr eglwysi yn gofyn pa fodd y gellir gweld ffordd ymlaen ar ôl dwy flynedd gyda miloedd ar filoedd o bobl wedi eu lladd. Ar 19–21 o fis Hydref 2023, cynhaliwyd cynhadledd Fedyddiedig yn Warsaw yng Ngwlad Pwyl gan gynnwys cynrychiolaeth o Wcráin, Gwlad Pwyl, Estonia, Prydain, Awstria, Yr Almaen, Ffrainc a'r Iseldiroedd. Thema'r gynhadledd oedd "Cariad, Gwirionedd ac Undod", ac yn y sesiwn gydag Alan Donaldson, ceisiwyd ystyried sut oedd darganfod gobaith mewn adfyd. Yr her i Undeb Bedyddwyr Ewrop oedd deall yn well sut i ddangos cefnogaeth i Fedyddwyr Wcráin, heb elyniaethu Bedyddwyr Rwsia. Bu cyfnod arall o dan arweiniad Helen Paynter o Fryste yn gofyn beth oedd yr arweiniad beiblaidd i'r her o ymgodymu gyda phoen a dioddefaint. Y ddau siaradwr olaf oedd Joshua Searle ac Oleksandr Geychenko, y naill yn Sais ac yn dweud bod angen ailedrych ar beth yw goblygiadau pasifistiaeth, tra oedd yr Wcreiniad yn dweud bod yr eglwys y perthynai ef iddi angen deall beth yw ystyr cymod ac undod eglwysig. Pwy a ŵyr y buaswn i'n holi'n ddwfn taswn i'n byw yn Wcráin, a gweld cymaint o chwalu cymunedau ac adeiladau?

Llun: Max Kukurudziak, unsplash.com

Mae'r drafodaeth yn parhau. Mae'r Eglwys Uniongred yn Rwsia wedi bod yn gyson wrth gefn y llywodraeth ac mewn rhyw fesur o ddealltwriaeth gyda Mr Putin. Mae'n annhebyg y gall anghydffurfwyr mewn gwledydd Ewropeaidd ddychmygu cyfyngiadau a bygythiadau'r wladwriaeth i'r cyrff crefyddol yn Rwsia. Mae'n ddiddorol cymharu ceidwadaeth ddiwinyddol a gwleidyddol Rwsia â cheidwadaeth a daliadau diwinyddol a moesol y Gweriniaethwyr yn UDA. Dywedodd Mr Trump y gallai ddatrys sefyllfa Wcráin mewn diwrnod. Am ddweud smala ac anghyfrifol.

Ar 16 Chwefror, cyhoeddwyd bod Alexei Navalny wedi marw yn y carchar, yn dangos bod dwrn dur Rwsia yn ddidostur a digyfaddawd. Dywedir bod yr Arlywydd Putin wedi awdurdodi lladd Navalny, i roi terfyn ar y trafodaethau i'w gyfnewid gyda dau Americanwr am asasin o Rwsiad a laddai ar orchymyn y KGB. Mae'n hawdd beirniadu llywodraeth unbeniaethol i bob diben, o foethusrwydd cadair gysurus yng Nghymru, peth arall yw gwneud hynny o gell fel y gwnâi Navalny. Ni wn beth oedd ei ddaliadau crefyddol, ond aeth ef, fel Bonhoeffer, yn ôl i'r ffwrnais dân gan wybod beth fyddai'n debygol o ddigwydd.

Wrth weld trydedd flwyddyn y rhyfel yn agor o'n blaen, mae rhai o lywodraethau Ewrop yn dal 'nôl rhag ariannu a darparu arfau i Wcráin. Bydd eraill yn cydnabod na allant ymuno yn y rhyfel eu hunain, ac mae Prydain a Ffrainc wedi ymdynghedu i gefnogi'r Wcráiniaid i'r dyfodol. Gadael i Rwsia gael tir Dwyrain Wcráin fydd ateb Mr Trump, ond beth yw ein barn ni am ryfel nad yw'n ennill na cholli tir? Gwyddom nad oes buddugoliaeth wirioneddol mewn unrhyw ryfel. Un genedl yn unig sy'n arogli mwg y taflegrau, cyfrif y cyrff sy'n dychwelyd adref a wna'r Rwsiaid, a chydnabod y gost ariannol fydd y gwledydd Ewropeaidd ac America yn ei wneud. Wrth deimlo llaid galar a dinistr ar ein hesgidiau, gweddïwn yn daerach ar i Dduw yn ei ras faddau erchylltra dynion ac arwain pobl at lwyfan cymod.

Denzil I John

Plant ysgol Sul ac ieuenctid Rhydfendigaid a fu'n dathlu Gŵyl Ddewi mewn gwasanaeth yn y capel

Cofio'r Parchedig Tom Wright
Tudalen 4

Y Silff Lyfrau
Sut i ddisgrifio'r Iawn?
Tudalen 7

Taith cynhwysiant anabledd: ABC
Tudalen 8

‘Pan oeddem ni mewn carchar tywyll, du … rhoist i’n oleuni nefol’ – Diwrnod Gweddi 100.Cymru a Chraig Blaenau

Jos a Lydia Edwards a’r plant

Rachel Radbourne fu’n rhannu am Gapel Goleudy, Llangefni

Arawn ac Anest Glyn (fu’n rhannu yn y digwyddiad)

Yn yr hen garchar ym Mlaenau Ffestiniog ar 2 Chwefror 2024 dyma’r gân a’r weddi a gododd yn niwrnod gweddi 100 i Gymru – casgliad o ffrindiau yn yr efengyl sydd am weld 100 eglwys iach newydd wedi eu plannu yng Nghymru yn y 10 mlynedd nesaf. Roedd Duw yn agos fel yr oedd yn achos Paul a Silas yn y carchar yn yr Actau – ond ni ddilynodd daeargryn. Yn hytrach na hynny, disgynnodd ei bresenoldeb mewn grym tawel a symud calonnau’r rhai oedd yn stafell theatr CellB – yr hen garchar sydd bellach yn sinema, anolfan greadigol, canolfan ieuenctid a llawer mwy! Gweddi’r Arglwydd fu’n llywio’r dydd arbennig yma o weddi a mawl. Dechreuwyd am hanner dydd a chafwyd chwe awr o weddi a mawl di-dor wrth i wahanol arweinwyr ein tywys ni drwy’r weddi a ddysgodd Iesu i’w ddilynwyr er mwyn iddyn nhw gael rhannu ynddi. Ac fe wnaeth llawer wedyn ymuno â ni yn y dathliad gweddi gyda’r nos.

Fel tîm Craig Blaenau roedd gweld y nifer fawr o ddilynwyr Iesu (bron i 200 yn ystod y dydd a’r nos) wnaeth yr ymdrech fawr i drafeilio ledled Cymru (ac ymhellach!) er mwyn sefyll gyda ni yn y bwlch yn anogaeth enfawr. Fe fuon ni’n gofyn i Dduw drugarhau wrthym, i weld diwygiad ar dorri, ac i’w deyrnas ddod i lawr yma megis yn y nef, felly ym Mlaenau Ffestiniog a’r fro hefyd. Galwom allan ar i enw Duw gael ei sancteiddio lle nad yw felly ar hyn o bryd. Gofynnon ni iddo roi inni ein bara beunyddiol, i’n harfogi a’n nerthu ar gyfer y gwaith. A chafwyd cyfnod o gyffesu ein pechod i Dduw fel unigolion ac fel eglwys er mwyn iddo faddau inni, iacháu ein gwlad a’i bendithio eto.

Erbyn y dathliad gweddi gyda’r nos am 7:30yh roedd stafell y theatr yn orlawn wrth i bobl dyrru yno i ymuno yn y gân o fawl, clywed am y pethau newydd y mae Duw yn eu gwneud ar hyd gogledd Cymru i gyd ac ymafael mewn gweddi dros y rhanbarth cyfan. Dechreuwyd y noson efo mawl gwefreiddiol; roedd hi’n beth rhyfeddol clywed 125 o leisiau’n un mewn mawl. Gosododd Owen Cottom (arweinydd Grace Church, Caerdydd, ac un o’r tîm sy’n arwain 100.Cymru) y sylfeini ar gyfer y noson drwy ein hatgoffa ni nad ydi Iesu wedi anghofio gogledd Cymru, ei fod yn gweld yr ardal, a bod ei galon yn methu peidio â mynd allan i’r colledig, a bod angen i’r un galon ein harwain ni yn ein gweddïau a’n gweithredoedd.

Clywsom am waith mewn pedair ardal wahanol, gan ddechrau ym Môn, efo Rachel Radbourne yn rhannu am Gapel Goleudy, eglwys ddwyieithog newydd sy’n cwrdd yn Llangefni ac yn gweld bendith aruthrol drwy wasanaethu’r ynys. Nesaf yr oedd Arawn ac Anest Glyn o Gapel Ebeneser, y Ffôr, a dynnodd ein sylw at Ben Llŷn gyfan a’r angen ysbrydol a chymdeithasol sy’n bod yno, ac y dylem ofyn i Dduw eu harwain hwy ac eraill i ddirnad y ffordd ymlaen i weld Llŷn unwaith eto’n cael ei thrawsffurfio gan Grist. Rhannodd Dr Rhodri Glyn wers mewn hanes o sut y symudodd Duw ym Môn i danio ein gweddïau. Dr Andras Iago, gwenidog Bro Dinbych, rannodd wedyn am ‘Gwreiddiau’, cymuned newydd o bobl sy’n dod ynghyd i addoli, i rannu bywyd a gwasanaethu’r dref, cyn cloi efo Andy Hughes o Emaus, Bala, a soniodd am y ffyrdd newydd yr oeddent yn eu defnyddio i gamu allan i gyrraedd eraill a bod yn fendith i ardal Penllyn! Braf oedd clywed am y nifer fawr o bobl ifanc oedd yn mynychu ac yn arwain yno, a’u bod bellach yn rhy niferus i’w man cyfarfod presennol! Gorffennwyd y noson fel y dechreuwyd hi: gyda mawl i’r Arglwydd. Roedd clywed theatr, sydd wedi cynnal sawl gìg ar hyd y blynyddoedd, am y tro cyntaf falle (ond nid y tro olaf, fe weddïwn) yn orlawn o fawl yn rhoi gwefr inni.

(parhad ar y dudalen nesaf)

'Pan oeddem ni mewn carchar tywyll du … rhoist i'n oleuni nefol' – Diwrnod Gweddi 100.Cymru a Chraig Blaenau
(parhad o dudalen 1)

Dim ond blas o'r dydd yw hwn: fe wnaeth Duw GYMAINT mwy. Ond dyma weledigaeth a dyhead dwfn y casgliad o ffrindiau '100 i Gymru'. Cyn i Dduw symud yn y wlad mae'n codi gweddi yn yr eglwys! I weld 100 o eglwysi newydd a Chymru wedi'i thrawsffurfio, rhaid dechrau efo gweddïo – tanio 100 awr y dydd yw'r nod. Os ydych yn gallu rhoi dim ond 15 munud o weddi yr wythnos i blannu eglwysi a gweld diwygiad yng Nghymru eto, cofrestrwch drwy fynd i wefan 100.Cymru a chofrestru hefyd i dderbyn y llythyr gweddi misol a gwybodaeth am ddigwyddiadau i ddod. Bydd mwy o diwrnodau gweddi fel yma'n cael eu trefnu, ac un peth sy'n sicr ydi y byddwn yn gwneud pob ymdrech i fod yno oherwydd ei bod yn anodd rhoi mewn geiriau faint o anogaeth oedd gweld y niferoedd yn rhannu yn ein calon a'n baich am y dref arbennig yma.

Bydded i'r hyfryd wawr fynd ar led unwaith eto wrth i Gymru gyfan gael ei goleuo gan yr efengyl sanctaidd …

Joseff Rhys Edwards
Blaenau Ffestiniog

Adeilad CellB, yr hen garchar a gorsaf yr heddlu yn y Blaenau



Pwyntiau Gweddi:

1 Rhowch ddiolch i Dduw am ein clybiau plant ac ieuenctid. Bellach mae dros 100 o blant a phobl ifanc y Fro yn dod i'r clwb rygbi am noson o hwyl, bwyd a gemau. Gweddïwch y bydd pob plentyn a pherson ifanc yn teimlo'n saff yno ac yn gweld eu gwir gwerth yng ngolwg Duw.

2 Rhowch ddiolch am y criw ffyddlon sy'n rhan o'r cwrs Alffa i ieuenctid yn yr ysgol bob prynhawn Llun – gweddïwch y byddwn ni'n gweld ffrwyth ar ôl yr holl sgyrsiau diweddar am ffydd a bywyd gyda nhw.

3 Rhowch ddiolch i Dduw am Craig Bach, grŵp chwarae newydd i rieni/gwarchodwyr a'u plant. Mae ymateb y gymuned wedi bod yn rhyfeddol wrth i 40 o rieni/gwarchodwyr fynychu'n rheolaidd a hyd yn oed mwy o blant!! Gweddïwch dros y cysylltiadau a pherthnasau sy'n dyfnhau, gweddïwch y bydd Craig Bach yn lle o fendith a gorffwys i rieni'r dref ac i bresenoldeb Duw lanw'r neuadd chwaraeon lle rydyn ni'n cyfarfod.

4 Gweddïwch dros y tîm wrth iddyn nhw ddirnad a yw Duw yn agor drws am gartref mwy parhaol i'r Graig yng nghanol y dre.

Gofynnwn i chi ymuno yn ein gweddi: 'Megis yn y nef, felly ym Mlaenau, Bro Ffestiniog, y Gogledd a'r Ddaear hefyd!'

Parhau'r dystiolaeth Gristnogol ym Mlaen-y-cwm gyda chynllun arloesol newydd

Mewn rhifyn diweddar o *Cenn@d*, nodwyd bod dros drigain mlynedd wedi hedfan heibio ers ordeinio a sefydlu'r Parchg Denis Young yn Nhynewydd, Eglwys Fedyddiedig Blaen-y-cwm yn y Rhondda Fawr. Bu gweinidogion eraill yn gwasanaethu'r eglwys, ac ar hyn o bryd mae Mrs Morwenna Thomas yn gwasanaethu yno fel cynorthwyydd cenhadol – swydd ran-amser sy'n cael ei galw'n rhan o'r Weinidogaeth Arloesol (Pioneer Ministry).

Merch sy'n enedigol o Gernyw yw Morwenna, er ei bod wedi byw yn y Rhondda er pan oedd yn naw oed. Mae'n briod â Christian Thomas, ac mae yntau hefyd yn estyn cefnogaeth i nifer o eglwysi ac yn arwain oedfaon yn ôl y galw.

Ymdeimlodd Morwenna â galwad Duw ar ei bywyd ac mae'n fyfyrwraig yng Ngholeg y Bedyddwyr, Caerdydd, yn dilyn cwrs MTh ar hyn o bryd. Ers mis Hydref 2022, cyflogir Morwenna gan Gymanfa Bedyddwyr Dwyrain Morgannwg, yn hyrwyddwraig genhadol ym Mlaenycwm. Ei phrif nod yw meithrin perthynas rhwng yr eglwys a'r gymuned.

Bu'n rhan o gynllun gweithio mewn caffi eglwysig a banc bwyd, a sefydlwyd yn wreiddiol gan y Parchg Phil Vickery, y cyn-weinidog, yn ogystal ag arwain

gweithgarwch 'Croeso i'r Coedlannau', drwy drefnu teithiau cerdded. Ceir cyfleoedd hefyd i gynnig awyrgylch a gofod croesawgar a chynnes yn y capel yn ystod yr wythnos i drigolion y pentref. Mae Morwenna wedi mwynhau'r profiad hyd yn hyn, ac yn disgwyl am arweiniad Duw i'w bywyd unwaith y bydd ei chyfnod yn y coleg wedi dod i ben.

Cofio'r Parchedig Tom Wright

Fe gafodd Tom ei eni yn Eifionydd yn 1934 – ei fam o Forfa Bychan, ond ei dad o Norfolk.

Symud i Gymru fu hanes Tom a'i fam ar ddechrau'r Ail Ryfel Byd, ac fe gafodd Tom felly beth o'i addysg gynnar ym Morfa Bychan cyn dychwelyd i Putney ar ôl y Blits.

Roedd 1947 yn ddyddiad arwyddocaoL – pan gafodd y teulu Wright eu ci cyntaf, sef Taff. Fe barhaodd addysg Tom yn ôl yn Llundain yn Ysgol Ramadeg Wandsworth. Yno roedd bachgen arall gydag acen Gymreig yn ei ddosbarth – David Hughes. Bu'r ddau yn ffrindiau, a maes o law fe ddaeth chwaer David Hughes yn Mrs Catherine Wright.

Roedd gan Tom ddiddordeb mawr ym myd y ddrama ac fe berfformiodd yn *Y Brenin Llŷr* Shakespeare tra oedd yn yr ysgol. O 1951 ymlaen, bu'n astudio yn King's College, Llundain, lle cafodd radd BA mewn Diwinyddiaeth. Yna fe gafodd gyfle i ddechrau pregethu ymhlith y gymuned Gymraeg yn Llundain. Yn 1954 fe astudiodd Tom yn y Coleg Diwinyddol yn Aberystwyth gan dderbyn gradd BD. Mi aeth ymlaen wedyn i gael Cymhwyster Dysgu yn 1958. Daeth yn bennaeth Addysg Grefyddol, a dysgu Saesneg a Drama yn Ysgol Ramadeg Stowe Market.

Yna yn 1966 – cafwyd diwrnod arbennig iawn. Fe briodod Tom a Catherine Hughes yng Nghapel Cymraeg Walham Green, Llundain.

Eu plentyn cyntaf oedd Rachel, a anwyd yn Bury St Edmunds. Ond fe gafwyd newid mawr yn 1967 pan symudodd y teulu yn ôl i Gymru. Yn 1967 fe ddaeth Tom yn Uwch-ddarlithydd Astudiaethau Crefyddol yng Ngholeg Hyfforddi Athrawon Cartrefle yn Wrecsam. Yn ystod ei yrfa ym myd addysg bu'n marcio papurau 'lefel O' Astudiaethau Crefyddol, ac yn cynnal dosbarthiadau nos. Dau ddigwyddiad pwysig iawn eto oedd geni Megan a Huw yn 1968 ac 1970. Erbyn hyn roedd Tom a Catherine yn aelodau yng Nghapel Seion, Wrecsam, ac yna yng Nghapel y Groes. Yn Seion bu'n athro ysgol Sul, a symudodd y teulu i fyw yn Ffordd Erddig, yna yn 1974 fe ddaeth Tom yn flaenor yn Seion.

Cyfnod arall hynod o ddiddorol yn ei fywyd a ddilynodd pan ddaeth Tom yn Warden Coleg Trefeca ger Aberhonddu yng ngwaelodion Powys, canolfan Hywel Harris, y diwygiwr. Yn ystod y cyfnod hwn fe ddewisodd Tom 'Del' fel ci o loches anifeiliaid. Yn ystod cyfnod Trefeca roedd Tom hefyd yn is-arholwr Astudiaethau Crefyddol ar gyfer Prifysgolion Llundain.

Yna daeth cam arwyddocaol iawn yn hanes Tom – sef ei ordeinio yn Weinidog yr Efengyl – yn Ninbych yn 1993. Mae pobl Capel Cymraeg St John Street, Caer, yn



cofio cyfnod Tom yn weinidog arnynt yn annwyl iawn. Bu Tom hefyd ym Mhenbedw, ac yn Ellesmere Port, ac yn y cyfnod hwn roedd y teulu yn byw yng Nghaer. Fe gyflwynodd Caer nifer o gyfleoedd i Tom yn yr oes aur honno. Bu'n gaplan yr Eglwysi Rhyddion wedi ei leoli yn Hosbis y Good Shepherd, ac yn gynrychiolydd crefyddol yng ngharchardai Lerpwl. Cofiaf iddo sôn wrtha i am ei hoffter o fod yn gaplan y dydd yn croesawu pobl wrth y drws yn Eglwys Gadeiriol Caer o 1994 hyd 2020.

Roedd 'na gwmni drama enwog gan Gymry Caer yn y cyfnod hwnnw ac fe gofiaf weld sawl cynhyrchiad gan y cwmni yn y capel yn Wrecsam hefyd.

Yn ystod y cyfnod hwn yn ei fywyd ymddiddorodd Tom yn y mudiad eciwmenaidd gan ymweld â chanolfannau yn yr Almaen, Hwngari, Iwerddon a Sweden. Yn ystod y cyfnod hwn fe weinyddodd y Cymun ar Ynys Sanctaidd Iona. Fe soniodd Tom wrtha i am yr anrhydedd mawr a deimlodd o weinyddu'r Cymun yn y lleoliad cyfareddol hwn. Yn 1997 bedyddiwyd Olivia Catherine Harvey, ei wyres, yng Nghapel St John Street.

Fe ddaeth y symud tŷ olaf yn y flwyddyn 2000 – ac fe gefais innau'r fraint o fod yn gymydog – yn llythrennol dros y wal – i Tom a'r teulu oll, pan symudais innau i'r rhan honno o Wrecsam i fyw. Roedd cartref y teulu yn 21 Bellevue Road, Wrecsam, yn edrych dros y Parciau. Dyma pryd croesawodd Tom Pero, y Jack Russell ar yr aelwyd. Yn 2014 fe ddaeth ychwanegiad arbennig iawn i'r teulu efo dyfodiad Molly, y ci a fu mor ffyddlon a gwarcheidiol o Tom ar hyd y blynyddoedd.

Wedi blynyddoedd fel pregethwr cynhwysfawr a difyr, fe ymddeolodd Tom o'i waith. Cyhoeddodd esboniad ar Actau'r Apostolion yn y Gymraeg.

Mi oedd Tom yn ŵr o ddiddordebau amrywiol iawn. Roedd yn ddarllenwr brwd, gan fynychu grwpiau darllen. Roedd yn arbennig o hoff o farddoniaeth a llenyddiaeth Gymraeg. Roedd Tom yn medru canu'r piano a'r organ, ac fe gafodd fendith mawr o wrando ar gerddoriaeth gydol ei oes.

Roedd Tom yn ieithydd penigamp – Cymraeg, Lladin, Ffrangeg ac Almaeneg. Roedd yn gefnogwr brwd o Gymorth Cristnogol, Bwydo'r Di-do, Amnest Rhyngwladol, ac yn aelod o'r Blaid Lafur a Phlaid Cymru. Dyma ŵr a ddotiai at Shakespeare, comedi ac opera. Nid yn unig opera oedd at ei ddant, ond opera sebon hefyd. Roedd yn ddilynwr brwd ar *Pobol y Cwm* a *Coronation Street*. Yn fwy na dim hoffai eistedd allan yn ei ardd gyda'r ci, ac yn llygad yr haul. Meithrinodd Tom ei Gymreictod gydol ei oes, ac fe fu'n noddfa iddo, ac fe fwynhaodd y teulu sawl gwyliau yn eu carafan yng Nghricieth. Bydd colled mawr ar ei ôl.

(Aled Lewis Evans, gyda diolch i Megan Harvey, merch Tom)

COFIO TOM

Y cyfan sydd gennym
pan fo'r ffonau yn tewi ac yn segur,
yw cyfeillion dros y clawdd.

Tom
y chwerthiniad a'r hiwmor
a'r gorwelion y tu hwnt i orwelion
yn ei drem a'i agwedd.

Darlithydd a Gweinidog a sgwrsiwr difyr
a'r gallu i weld y Darlun Mawr bob tro.
Y cyfan yn plethu'n gywrain
yn ei atgofion, ac yn ei werthfawrogiad
o'r bywyd a gafodd.

Yn yr Haf, braf oedd eistedd yn y cysgod
a sgwrsio efo Tom yn ei ardd,
yntau dan warchodaeth gyson
Molly'r ci bach,
a oedd yn ei warchod yn ei wely yn y nos.

Ond weddill y tymhorau,
sgwrs pan fedrwn dros y wal gefn oedd hi!
Yn y man hwnnw lle mae dwy ardd
a dau fyd yn cwrdd.
Tom mor ddiolchgar i'w deulu annwyl
a'u cariad yn lapio amdano.

Dim mwy o sgyrsiau dros y wal, Tom,
yn trafod dyddiau'r darlithydd,
a gweinyddu'r Cymun ar Ynys Iona,
dyddiau Trefeca, a chapel St John Street.

Hwn oedd ein cornel bach ni o'r byd,
lle roeddet yn llwyddo bob amser
i gadw pethau mewn persbectif,
dy allu arbennig i weld y Darlun Mawr.

Clywaf dy chwerthiniad iach
yn dal i atsain yn y gwynt
ar Ffordd Jiwbilî a Ffordd Bellevue.

Bellach rwyt yn diddanu yn y tu hwnt
rwy'n siŵr,
"dim ond rownd y gornel",
yn y byd hwnnw heb waliau sy'n gwahanu.
Fel y dywedodd Scott Holland mor gelfydd
"Dim ond yn yr ystafell nesa ydw i."

Dim ond yr ochr arall i'r wal, Tom.
"Mae popeth yn dda."

Aled Lewis Evans

Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 4 Lleoli

Gofyn Ymlaen Llaw: cwestiwn i'w ystyried cyn y sesiwn hon

A fedrwch chi feddwl am le sy'n arbennig i chi? Gall fod yn rhywle lle rydych chi'n byw nawr neu y buoch chi'n byw neu wedi ymweld ag e yn y gorffennol. Pam bod y lle hwn mor bwysig ichi?

Darlleniad o'r Ysgrythur: Marc 2.13-17

Aeth Iesu allan at y llyn unwaith eto. Daeth tyrfa fawr o bobl ato, ac roedd yn eu dysgu. Yna wrth fynd yn ei flaen, gwelodd Lefi fab Alffeus yn eistedd yn y swyddfa dollau lle roedd yn gweithio. "Tyrd, dilyn fi," meddai Iesu wrtho; a chododd Lefi ar unwaith a mynd ar ei ôl.

Yn nes ymlaen aeth Iesu a'i ddisgyblion am bryd o fwyd i dŷ Lefi. Roedd criw mawr o'r rhai oedd yn casglu trethi i Rufain yn y parti hefyd, a phobl eraill roedd y Phariseaid yn eu hystyried yn 'bechaduriaid'. (Pobl felly oedd llawer o'r rhai oedd yn dilyn Iesu.) Wrth iddyn nhw ei weld e'n bwyta gyda 'pechaduriaid' a chasglwyr trethi, dyma rai o'r Phariseaid oedd yn arbenigwyr yn y Gyfraith yn gofyn i'w ddisgyblion: "Pam mae e'n bwyta gyda'r bradwyr sy'n casglu trethi i Rufain, a phobl eraill sy'n ddim byd ond 'pechaduriaid'?"

Clywodd Iesu hyn, a dwedodd wrthyn nhw, "Dim pobl iach sydd angen meddyg, ond pobl sy'n sâl. Dw i wedi dod i alw pechaduriaid, dim y rhai sy'n meddwl eu bod nhw heb fai."

Mae 110 miliwn o bobl yn y byd heddiw wedi'u gorfodi o'u cartrefi a'u dadleoli trwy rym.
(Ffynhonnell: Uwch-gomisiynydd y Cenhedloedd Unedig dros Ffoaduriaid)
Mae gan fabi bach a enir yn fachgen yn un o'r ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y DU yn 2020 ddisgwyliad oes sy'n 10 mlynedd yn fwy na bachgen a enir yn un o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. I enethod, mae'r gwahaniaeth yn 8 mlynedd.
(Ffynhonnell: Cronfa'r Brenin)

Dewch inni feddwl gyda'n gilydd ynglŷn â lle rydyn ni wedi'n lleoli/ein gosod ar hyn o bryd. Ble rydych chi nawr? Ble rydych chi'n byw? Sut gymuned sydd ganddoch chi? Pa ddewisiadau ddaeth â chi yma?

Mae rhai ohonon ni'n mwynhau graddfa o hyblygrwydd o ran lle rydyn ni'n lleoli ein hunain. Mae ganddon ni rywfaint o ryddid dros ble rydyn ni'n rhentu neu brynu cartref, lle byddwn ni'n siopa'n rheolaidd, lle byddwn ni'n dewis mynd ar wyliau.

I eraill yn ein mysg, prin, os o gwbl, ydy'r rhyddid sydd ganddyn nhw yn y materion hyn.

Yn y sesiwn hon, fe fyddwn ni'n meddwl gyda'n gilydd ynghylch lle y dewisodd Iesu i'w leoli ei hun ac am ein profiad ninnau o le a chymuned.

A wnaethoch chi erioed sylwi faint o weithiau yn yr Efengylau y gwelir Iesu nid yn y lle y "dylai" neu y "disgwylir iddo" fod?

Pan anwyd Iesu, mae'r doethion yn mynd i balas Herod, gan ddisgwyl mai yno y byddai cael hyd i fabi brenhinol, neu o leiaf newyddion am ei leoliad. Doedden nhw ddim yn rhagweld y byddai'r brenin newydd yn cysgu mewn stabl ar stryd gefn ym Methlehem.

Yn hytrach na dychwelyd i'w cartref yn Nasareth, gorfodwyd Mair, Joseff a'u babi i adleoli fel ffoaduriaid, gan ffoi i'r Aifft i ddianc rhag trais Herod.

Fel plentyn, fe gollodd ei deulu olwg ar Iesu wrth iddyn nhw deithio'n ôl o Jerwsalem, gan ddod o hyd iddo (yn annisgwyl i bawb) yn addysgu yn y deml.

Yn ein darlleniad uchod, bellach yn oedolyn, mae Iesu'n synnu rhai pobl wrth ei weld yn rhannu pryd o fwyd yn nhŷ casglwr trethi. Yn yr un modd, pan fo'n mynd i mewn i dŷ Sacheus: 'Doedd y bobl welodd hyn ddim yn hapus o gwbl! Roedden nhw'n cwyno a mwmblan, "Mae wedi mynd i aros i dŷ 'pechadur' – dyn ofnadwy!"' (Luc 19.7)

P'un a oedd yr ymateb yn un o syndod neu feirniadaeth, mae yna ryw ymdeimlad yn yr hanesion hyn bod **Iesu yn rhywun "nad oedd yn gwybod ei le"**. Mae yna hierarchaethau a disgwyliadau nad ydy e'n cadw atyn nhw. Does dim disgwyl i frenhinoedd orfod cysgu yng nghwmni anifeiliaid fferm. Dydy plant ddim i fod i addysgu gydag awdurdod yn y deml. Ddylai arweinydd crefyddol ymwrthod â chysylltu â *phobl fel'na* ac yn bendant, ddylen nhw ddim derbyn gwahoddiad i'w cartref.

Dewch inni gymryd golwg ar yr hyn mae Iesu'n ei ddweud pan fo'r ysgrifenyddion yn ensynio nad ydy e lle y "dylai" fod. "Pam mae eich athro yn bwyta gyda'r bradwyr sy'n casglu trethi i Rufain a phobl eraill sy'n ddim byd ond 'pechaduriaid?" gofynnen nhw. Dyma Iesu'n eu hateb nhw'n ôl ynglŷn â'r syniad yma fod rhai pobl o bosib yn cael eu gweld yn 'bechaduriaid', tra bo eraill efallai'n cael eu hystyried yn 'gyfiawn'. Mae ei ymateb yn awgrymu nad rhyw dasg syml ydy ymrannu pobl yn ddau grŵp fel mae'r ysgrifenyddion yn ei feddwl. "Dim pobl iach sydd angen meddyg, ond pobl sy'n sâl." **Pwy fase'n ddigon hyderus i ddatgan nad ydyn nhw byth yn 'sâl'? Pwy sy'n ddigon siŵr nad ydyn nhw erioed wedi bod angen doctor i'w gwella, neu na fyddan nhw byth angen doctor?**

'[Iesu]'n bwyta gyda chasglwyr trethi a phechaduriaid ... nid ar ddamwain y mae hyn yn digwydd ... yn hytrach, mynegiant o wir fod Duw'
James H. Cone, *A Black Theology of Liberation*, 1970

Ceir cysylltiad yma gyda hanes y ferch a ddygwyd gerbron Iesu yn Ioan 8.7. Fe'i daliwyd yn godinebu a dyma Iesu'n gofyn beth ddylid ei wneud â hi. Ei ateb ydy: "Os oes un ohonoch chi ddynion erioed wedi pechu, taflwch chi'r garreg gyntaf ati hi." Chododd neb flaen bys hyd yn oed. Mae'r ffiniau y mae'r ysgrifenyddion yn ceisio'u tynnu er mwyn sicrhau fod pawb yn gwybod eu lle yn cael eu galw i gwestiwn yn barhaus gan Iesu. Mae Iesu'n un sy'n styrbio neu'n tarfu ar drefnusrwydd y 'ni' a 'nhw', y 'rhai ar y tu mewn' a'r 'rhai ar y tu allan', mannau y dylid bod a mannau y dylid eu hosgoi.

Wrth gwrs, dydy Iesu ddim yn digwydd troi i fyny mewn mannau yr ystyrir yn anaddas i arweinydd crefyddol – mae'n fwriadol yn chwilio amdanyn nhw.

Mae James H. Cone, arloeswr mewn cysylltu'r farn Gristnogol gyda phrofiad byw cymunedau du, yn tanlinellu pwysigrwydd y mannau y dewisodd Iesu ei osod ei hun. Mae Iesu'n ei uniaethu ei hun â'r rhai hynny a ormeswyd ac a wrthodwyd gan strwythurau cymdeithasol ac economaidd, ac yn ei osod ei hun yn eu mysg: y rhai hynny mewn tlodi, y rhai a labelir yn 'bechaduriaid', y rhai hynny a gaewyd allan o goridorau grym. Mae'n ymwneud â nhw, yn ymuno ac yn rhannu eu profiad, yn bwyta, yfed, ac yn byw gyda nhw. Mae'n agored i'r un systemau anghyfiawn, hyd yn oed i'r eithaf o gael ei gondemnio a'i ddedfrydu i farwolaeth.

Dydy galwad Iesu i edifeirwch, meddai Cone, ddim yn syml yn fater o ddifaru unigol am y pethau hynny wnaethon ni'n anghywir. Mae'n ymwneud â pharodrwydd i fyw fel rhywun sydd yn anelu at wireddu teyrnas Dduw, yma nawr.

'Edifarhau', ysgrifennai Cone, 'ydy cadarnhau realaeth y deyrnas… Y deyrnas ydy rheol Dduw yn torri trwodd fel pelydryn goleuni, yn trawsfeddiannu'r grymoedd sy'n caethiwo bywydau pobl.'

(parhad ar y dudalen nesaf)

Cymorth Cristnogol – Taclo Tlodi – Grawys 4
Lleoli
(parhad o dudalen 5)

Pan fo Iesu yn y mannau lle na "ddylai" fod, mae hynny er mwyn dangos inni mai dyma lle y gellir cael hyd i'r deyrnas. Yn y mannau hyn, mae gan gariad, goleuni a rhyddid gwaith Duw y grym i chwalu gormes, dymchwel hierarchaethau ac iachâu rhaniadau.

Dewch inni ddychwelyd at y cwestiwn ynglŷn â ble rydych chi wedi eich lleoli/ eich gosod heddiw.

Pa ryddid sydd ganddoch chi i ddewis lle rydych chi'n lleoli eich hun? Ymhle ydych chi'n meddwl y base Iesu'n lleoli ei hun yn eich cymuned?

Gwrandewch ar : Zanele Makombe, Act Ubumbano, De Affrica

Gwrandewch yn https://soundcloud.com/actonpoverty (7munud)

Mae Zanele Makombe yn Gynghorydd Rhaglenni iechyd a hawliau rhyweddol, rhywiol ac atgenhedlol gydag Act Ubumbano. Rhwydwaith ydy Act Ubumbano o fudiadau datblygu, yn seiliedig ar ffydd, yn Ewrop a Deheudir Affrica, sy'n gweithio dros gyfiawnder cymdeithasol, amgylcheddol a rhyweddol ledled nifer o wledydd Affrica.

Mae Zanele'n siarad am y grym sydd gan gymunedau i weithredu dros newid, gyda'r gefnogaeth iawn. Mae hi'n trafod yr alwad i wasanaethu'n gilydd fel bodau dynol ac i herio unrhyw gau allan ac ymraniadau.

Mae Zanele'n crybwyll y cyfnodau hynny o **'brofi presenoldeb Duw'** pan fo hi'n gweld ei gwaith a'i ffydd yn cyd-asio wrth wasanaethu ei chymdogion. **A ydych chi wedi cael cyfnodau o 'brofi presenoldeb Duw' fel hyn lle gwnaethoch chi synhwyro pwrpas wrth wasanaethu Duw?**

I ble'r ewch chi pan fyddwch chi'n ceisio gwrando ar yr hyn sydd gan Dduw i'w ddweud? A oes lleoedd yn eich cymuned sy'n eich helpu i wneud hynny?

Gwrandewch ar: Parch Ddr Al Barrett, Rheithor Eglwys Hodge Hill, Birmingham, a Clare McLean, Ymgysylltydd Stryd a chydarweinydd Eglwys FAB

Gwrandewch yn https://soundcloud.com/actonpoverty (7munud)

Mae'r Parch Ddr Al Barrett a Clare McLean yn siarad am eglwys a chymuned yn Hodge Hill, ardal o Birmingham sydd wedi profi amddifadedd arwyddocaol. Cewch glywed gan Clare am ei phrofiadau o adeiladu cysylltiad rhwng cymdogioon fel Cysylltydd Stryd. Mae Al a Claire yn trafod y canfyddiadau am ardaloedd lle ceir lefelau tlodi uchel, y ffyrdd y gall cymunedau gael eu galluogi i lefaru dros newid a rôl yr eglwys ym mywyd y gymuned. **Beth ydy eich ymateb i'r syniad a godir gan Al ynghylch 'digonedd cuddiedig' mewn cymunedau? Beth sy'n helpu i adeiladu cyswllt rhwng aelodau eich cymuned?**

Ysbrydoliaeth: South London Mission, Bermondsey

Gwyliwch ein ffilm fer (4 munud) yma: https://www.youtube.com/watch?v=655U5mG3DHM

Mae Winnie a Peter Baffoe o'r South London Mission yn dangos inni sut maen nhw'n defnyddio Seibiant, Adfywiad, a Chwyldro – gyda'u cymuned i ddatblygu newid sy'n parhau. Mudiad cymunedol Methodistaidd ydy'r South London Mission a fu'n gweithredu ers 1889.

Ar hyn o bryd, mae'r genhadaeth yn profi anghydraddoldeb incwm arwyddocaol a chynyddol yn ei hardal leol. Mae'r fideo hwn yn rhoi cipolwg ysbrydoledig ar y modd y mae eu prosiectau a'u partneriaethau yn mynd i'r afael â hyn.

Taclo Tlodi - Beth fasech chi a'ch eglwys yn gallu'i wneud?

Gweithredu: Penderfynwch sut ydych chi am rannu'r hyn fuoch chi'n ei drafod yn y sesiwn hon (ac mewn sesiynau blaenorol, os ydych chi'n dilyn y cwrs llawn). Gall hyn fod o fewn eich eglwys, yn eich cymuned, a/neu gyda'ch cynrychiolydd seneddol. **Beth fyddai'r cam cyntaf i'ch eglwys o ran rhannu'n ehangach y neges fod yn rhaid inni weithredu ar dlodi nawr?**

Fe allech:

- Siarad ag eraill yn eich eglwys am eich profiad gyda Taclo Tlodi neu sgwennu darn i gylchlythyr neu wefan eich eglwys.
- Dechrau cynllunio sut fyddwch chi'n codi tlodi fel mater i'w drafod gyda'ch cynrychiolydd seneddol neu ddarpar ymgeiswyr seneddol. Fe allech chi wneud hyn trwy e-bostio neu ffonio eu swyddfa am apwyntiad. Cofiwch, medrwch gael hyd i bwy ydy eich AS yma: https://members.parliament.uk/findyourmp

  Ac fe allwch chi gael hyd i bwy ydy eich darpar-ymgeiswyr seneddol yma: https://whocanivotefor.co.uk/ppcs/

  Medrwch hefyd edrych ymlaen at rannau 5 a 6 o'r cwrs Taclo Tlodi am fwy o awgrymiadau ynghylch sut i ohebu'n effeithiol gyda'ch AS.

- Gwnewch yr angen am weithredu ar dlodi'n amlwg trwy archebu baner Let's End Poverty (a welir uchod) a'i harddangos yn eich eglwys. Fe gewch hyd i gyfarwyddiadau ynglŷn â sut i wneud hyn a chyngor ynghylch gwahodd eich AS lleol i weld eich baner, yn ogystal â phatrymlun o ddatganiad i'r wasg ar gyfer eich papur lleol yma (yn Saesneg yn unig): https://caid.org.uk/actonpovertyact

Gweddi i Gloi

Iesu, helpa ni i glywed dy alwad i fod yn ddisgyblion. Fel Lefi, boed i ninnau ddilyn dy arweiniad di.
Dangos inni, Arglwydd, lle y dylen ni osod ein hunain yn dy wasanaeth di ac yng ngwasanaeth ein cymdogion.

Diolchwn iti, Iesu, am y mannau hynny sy'n golygu rhywbeth arbennig inni.
Diolch am y mannau lle byddwn yn clywed dy lais, mewn llonyddwch a thrwy leisiau eraill.
Bydd gyda ni, Arglwydd, wrth inni geisio cyswllt dyfnach o fewn ein cymunedau.
Helpa ni i wireddu dy deyrnas, yma, nawr.
Amen.

Eglwysi Ynghyd Rhydaman

I ddathlu'r Pasg bydd eglwysi Rhydaman yn cynnal Pererindod ar Ddydd Gwener y Groglith. Byddwn yn teithio o gwmpas eglwysi a chapeli'r dref, gan gynnal addoliad byr y tu allan i bob un ohonynt. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag Emyr Gwyn Evans emyrgwyn@btinternet.com

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 10 Mawrth am 7.30yh
Ymunwch â Lowri Morgan wrth i ni nodi dau ddyddiad arwyddocaol, Sul y Mamau a Diwrnod Rhyngwladol y Merched. Cawn ddysgu am rai o fenywod nodedig y Beibl. A chawn fwynhau gwledd o ganu mawl a pherfformiad arbennig gan y triawd o chwiorydd dawnus, Sorela.

BBC radio cymru

Caniadaeth y Cysegr
Sul, 10 Mawrth, am 7.30yb a 2yp
Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Megan Williams

Oedfa Radio Cymru
10 Mawrth, Sul y Mamau
Oedfa dan ofal gweithwyr 'Plant Dewi', Esgobaeth Tyddewi.

Y Silff Lyfrau

Sut i ddisgrifio'r Iawn?

Yn fy mhrofiad i, y mater sy'n ganolog yn yr ymraniad rhwng y rhai sy'n arddel cred efengylaidd a'r rhai sy'n cyflwyno safbwynt diwinyddol mwy rhyddfrydol yw natur yr athrawiaeth am yr iawn. Y gwir yw fod dadlau ar hyn wedi bod yn rhan o gorff y Methodistiaid Calfinaidd, e.e., ers deucan mlynedd. Yn y gyfrol a gaiff ein sylw y tro hwn mae'r awdur, sy'n arddel y safbwynt efengylaidd, yn ceisio cael rhai o'r un safbwynt ag ef i ail-ystyried eu dehongliad a'u mynegiant o athrawiaeth yr iawn. Mae'n arbennig o awyddys i'w gweld yn ailedrych ar eiriad yr ymadroddion traddodiadol y maent wedi arfer â'u defnyddio.

Teitl y gyfrol yw *The Cross in Context: Reconsidering Biblical Metaphors for Atonement* (Downers Grove, IL: IVP Academic, 2022; ISBN 978-1- 5140-0028-1; $28.00, xii + 256 pb).

Americanwr o'r enw Brad Vaughn yw'r awdur ac mae ganddo enw arall a ddefnyddiodd am resymau diogelwch pan oedd yn genhadwr yn Nwyrain Asia, sef Jackson Wu, a chyhoeddodd gyfrolau o dan yr enw hwnnw hefyd.

Fel yr awgyma teitl y gyfrol hon mae'n pwysleisio'r rôl y mae cyd-destun hanesyddol yn ei chwarae mewn trafodaethau o'r athrawiaeth hon ac mae'n daer yn annog archwilio'n fanwl y deunydd beiblaidd wrth ei llunio. Rhydd ddisgrifiadau manwl a dehongliadau clir o'r gwahanol fathau o offrymau aberthol a geir yn yr Hen Destament sy'n gefndir i drafodaethau ar y pwnc. Tra'n amlinellu'n gryno wahanol ddamcaniaethau am yr iawn, hoelia sylw arbennig ar y ddamcaniaeth a ymddengys yr un fwyaf blaenllaw ymysg efengylwyr y byd, gan gynnwys Cymru, sef y ddamcaniaeth ddirprwyol gosbol (*penal substitutionary theory*). Mae'n deillio o syniadau Anselm ddechrau'r canoloesoedd a gafodd eu datblygu ymhellach gan y diwygwyr Protestannaidd. Yn ôl eu dehongliad gwreiddwyd y cymod yng nghyfiawnder Duw. Ystyrir pechaduriaid yn elynion gan Dduw, a dengys ei gyfiawnder drwy weithredu'i gyfraith. Gan fod pobl yn torri'r gyfraith hon maent yn haeddu marw. Eto, gan fod Duw yn eu caru, mae'n danfon Crist i farw yn eu lle. Yn hytrach na bod pechaduriaid yn dwyn eu pechod eu hunain, y mae Crist y gwneud hynny, ac yma dyfynnir 2 Corinthiaid 5.21: 'Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw ef yn un â phechod drosom ni, er mwyn i ni ddod yn gyfiawnder Duw ynddo ef'. Felly y mae Duw'n bwrw ei lid ar Iesu, ac ef sy'n derbyn y gosb a'r farwolaeth y mae pechaduriaid yn eu haeddu. Felly haerir fod Crist nid yn unig wedi marw ar ein rhan ond wedi marw yn ein lle.

Gwrthyd yr awdur y gred fod cymod a phridwerth yn anochel yn golygu ad-daliad (*retribution*). Deil yn hytrach fod pridwerth yn esgor ar gymod (a gall dawelu llid = dyhuddo) ar wahân i ad-daliad. Fel aberth mae Crist yn talu ein pridwerth i Dduw, ond nid yw'n derbyn ein had-daliad haeddiannol oddi wrth Dduw. Gwrthyd hefyd y gred fod cymod/gwneud iawn yn anochel yn cynnwys cosb a dedfryd o farwolaeth. Dengys fel y mae'r Beibl yn cynnwys llawer enghraifft o gymod heb bresenoldeb ad-daliad. Fel y nodwyd eisoes honnir yn aml mai Iesu yw'r aberth sy'n talu ein dyled gan ddioddef cosb y farwolaeth yr ydym ni'n ei haeddu. Gwnânt gamgymeriad, meddai, wrth gyfuno dyled a marwolaeth. Mae awduron y Beibl yn gwahaniaethu rhwng talu dyled a'r gosb a ddaw oherwydd anallu rhywun i dalu'r ddyled. Mae'n dadlau y gellir cadarnhau pump o ddatganiadau y brif ddamcaniaeth a amlinellwyd uchod, sef bod aberth Crist yn achosi cymod; bod Crist yn dwyn ein pechod; bod iawn Crist yn cynnwys cosb; ei fod yn cynnwys dirprwyad a bod gwneud iawn gan Grist yn tawelu llid Duw. Gellir, felly, argymell pob un o'r haeriadau hyn heb fynnu fod Duw'r Tad yn lladd neu'n condemnio Crist y Mab ar y groes. Nid oes yr un adnod yn y Beibl sy'n datgan yn glir bod llid Duw wedi'i dywallt ar Grist nag un sy'n dweud ei fod wedi dwyn ein gwarth.



Yn gyffredinol, mae'r awdur hwn yn galw am lunio damcaniaeth fwy cynhwysfawr o'r iawn sy'n cynnwys yr amrywiaeth o drosiadau a delweddau perthnasol i'r pwnc a geir yn y Beibl. Yn wir, dywed nad oes un eglurhad yn yr Ysgrythur sydd ohono'i hun yn dangos *sut* y mae Crist yn gwneud iawn ar ein rhan.

Gellir cymeradwyo'r gyfrol gynhwysfawr hon i bob darllenydd beth bynnag yw ei ragdybiaethau ynglŷn â'r athrawiaeth ganolog hon, ac mae hefyd yn gwahodd trafodaeth ac ystyriaeth bellach o'i chynnwys gyda phedair tudalen o gwestiynau ar ei diwedd. Bydd yn sicr yn procio meddwl pob un i ail-assesu eu dealltwriaeth o'r iawn.

John Tudno Williams

Dathlu Pen-blwydd Mawr Iawn!

Ar 29 Chwefror fe ddathlodd ein ffrind Ilyd Jones, sydd bellach mewn cartref ym Mwcle, ben-blwydd mawr iawn! Fe aned Ilyd yng nghanol y Rhyfel Byd Cyntaf ac fe drodd yn 108 oed ar ddiwrnod olaf mis Chwefror. Gan mai dim ond unwaith bob pedair blynedd y mae'r dyddiad hwn ar gael iddi ddathlu arno, hwn oedd ei 27fed penblwydd mewn gwirionedd! Yn sicr, Ilyd yw ein haelod hynaf fel eglwys yn yr Wyddgrug, ac mae'n siŵr o fod ymhlith aelodau hynaf ein Cyfundeb, os nad yr hynaf. Tybed a ŵyr unrhyw un am aelod yn ein heglwysi sy'n hŷn na hi?

Daw'r llun o'i phen-blwydd flwyddyn yn ôl. Diolch i Dduw amdani a bendith arni ac ar bawb sy'n gofalu amdani.

Huw Powell-Davies

Taith cynhwysiant anabledd: ABC

Mae'r elusen anabledd Through the Roof yn galw ar holl eglwysi'r Deyrnas Unedig i ymuno â'r daith ABC (Access, Belonging, Commission) o gynhwysiant anabledd, o Fynediad i Berthyn i Gomisiwn. Maen nhw'n rhannu fframwaith newydd – y model ABC – fel arf syml i eglwysi ddangos bod cynhwysiant anabledd yn ymwneud â mwy na dim ond mynediad.

Yn y Deyrnas Unedig mae gan **24%** o'r boblogaeth anabledd (Arolwg o Adnoddau Teulu, 2021–22). Nid yw pob anabledd yn weladwy, ond mae pobl anabl yn dal i gael eu tangynrychioli yn eglwysi'r Deyrnas Unedig – yn enwedig mewn swyddi â chyfrifoldeb.

Mae pobl anabl yn wynebu llawer o rwystrau i'w bywyd ysbrydol. Dim ond y cam cyntaf yw mynediad i adeiladau eglwysig; gall pobl deimlo eu bod wedi'u cau allan unwaith y byddan nhw mewn eglwys, os nad ydyn nhw'n teimlo eu bod yn perthyn, neu fod eu doniau yn cael eu gwerthfawrogi.

Dyma grynodeb o'r model ABC y mae Through the Roof yn ei ddefnyddio, gan weithio gydag eglwysi a phobl ar draws pob anabledd i alluogi: Mynediad, Perthyn a Chomisiwn …

- **Mynediad**: I bawb adnabod Iesu, gyda phobl anabl yn cael eu croesawu'n llawn i fywyd Cristnogol
- **Perthyn**: I bawb dyfu gyda'i gilydd fel teulu Duw, gyda phobl anabl yn ffynnu mewn cymuned gydag eraill
- **Comisiwn**: I bawb adlewyrchu cymeriad Iesu, gyda phobl anabl yn gwneud disgyblion, er gogoniant Duw.

Sut mae Through the Roof yn helpu?

Mae Through the Roof yn darparu adnoddau, hyfforddiant a chymorth am ddim i eglwysi lleol i gyflawni'r comisiwn gwych i bobl anabl – a thrwy bobl anabl, fel bod presenoldeb a doniau pawb yn cael eu gwerthfawrogi.

Mae'r prosiect Roofbreaker yn arfogi gwirfoddolwyr mewn eglwysi a gweinidogaethau lleol i weithredu fel hyrwyddwyr anabledd – gwrando ac ymateb i'r heriau y mae pobl anabl yn eu hwynebu, gan eu galluogi i ddefnyddio'u doniau a'u galluoedd i wasanaethu fel aelodau cyfartal o gorff Crist: yr eglwys.

Gall Through the Roof helpu'ch eglwys neu eich gweinidogaeth i groesawu a gwerthfawrogi pobl anabl yn fwy llawn. Rydym yn cynnig:

- gweithdy Ymwybyddiaeth Anabledd dros Zoom, 2 awr AM DDIM ar gyfer eglwysi sy'n penodi hyrwyddwr anabledd neu 'Roofbreaker'
- mynediad i 'Becyn Cymorth Eglwys' y gellir ei lawrlwytho am ddim ac archwiliad hygyrchedd eglwysi 'Dileu Rhwystrau', sydd ar gael i bob hyrwyddwr anabledd Roofbreaker
- gostyngiad o 50% ar adnoddau Through the Roof i holl hyrwyddwyr Roofbreaker eglwysi
- cyngor a chymorth gan un o dri Chydlynydd Roofbreaker Rhanbarthol sy'n cwmpasu'r Deyrnas Unedig gyfan, i annog cynhwysiant anabledd ym mhob eglwys
- cefnogaeth drwy e-byst misol, digwyddiadau, Facebook a rhwydweithiau Roofbreaker

Mae Katie Mobbs, Roofbreaker Arweinydd tîm a Chydlynydd Cymru, Gorllewin a De-orllewin Lloegr, ac sy'n byw yng Nghaerdydd ac yn defnyddio cadair olwyn, yn rhannu:

"Dwi mor gyffrous am y daith ABC oherwydd dwi'n credu ei bod yn llwybr i fwy o bobl anabl gael eu rhyddhau i genhadu, gan rannu eu doniau a'u sgiliau er gogoniant Duw. Mae'r acronym ABC (MPC yn Gymraeg) yn hawdd i'w gofio, felly mae'n ein hatgoffa o 'Gomisiwn Mawr' Duw. Mae'n cynrychioli gwahoddiad i bob un ohonom – dyma'r Efengyl ar waith."

Beth alla i ei wneud?

Helpwch eich eglwys i gynnwys pobl anabl – dewch yn 'Roofbreaker'!

Mae ein Roofbreakers yn wirfoddolwyr lleol sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth a goresgyn heriau anableddau, er mwyn galluogi pobl anabl i brofi cariad Duw.

Gyda Roofbreaker, gall eich eglwys anfon neges gadarnhaol at bobl anabl trwy ymuno â'n map ar-lein o eglwysi Roofbreaker. Gallwch fod ar y map p'un a yw eich eglwys neu weinidogaeth newydd ddechrau, neu'n parhau, ar y daith ABC tuag at well cynhwysiant anabledd.

Gallwch weld sut gall eich eglwys chi gael ei bendithio gan gyfraniad llawn pobl anabl ar ein gwefan: https://throughtheroof.org/forchurches/roofbreakers/

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru.
Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:
huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com
www.cennad.cymru CennadCymru @CennadCymru